**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**"Y Wlad Sy'n Dysgu" Mis Hydref 2001**

**Ymateb Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Ddogfen Ymbaratoi**

**Rhagair**

1 Lluniwyd yr ymateb hwn yng nghyd-destun gorolwg strategol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn ogystal â'i rôl statudol i gytuno Cynlluniau Addysg Gymraeg â phob un o Awdurdodau Addysg Lleol Cymru yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Pwysleisir isod ddiddordebau penodol y Bwrdd mewn hyrwyddo a datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar, anghenion addysgol arbennig ac addysg a hyfforddiant ôl-16 oed. Yn ogystal, pwysleisir ein rôl o ran maes Cymraeg i Oedolion a pharhad a dilyniant yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg statudol ac ôl-statudol.

2 Os yw'r rhaglen addysg a dysgu gydol oes hon yn mynd i osod yr agenda a "Pharatoi'r ffordd" i'n system addysg tan 2010, yna rhaid cael consensws ynghylch ei nodau a'i hamcanion sy'n cael ei rannu gan yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â phrosesau dysgu gydol oes. Felly, mae cael cydbwysedd rhwng yr holl ddarparwyr a hwyluswyr yn hanfodol. Rhaid rhoi cymorth gweithredol a digon o gyllid ar gyfer patrymau gwaith ar draws y sectorau a'r awdurdodau – a hynny mewn amgylchedd dwyieithog a chyfannol. Mae angen i'r cynllunio ar gyfer agenda dwyieithrwydd y Cynulliad fod yn strategol ac yn integredig, ac mae'r Bwrdd yn croesawu'r cyfeiriadau at ddwyieithrwydd yn y Ddogfen.

3 Wrth ymateb i'r Ddogfen, mae'r Bwrdd yn cynnig sylwadau fesul pennod, ac nid yw'n ymateb i'r holl gwestiynau a godir gan y Cynulliad ar ddiwedd pob pennod. Yn ogystal, codir nifer o faterion ychwanegol yn ystod yr ymateb.

**Pennod Un**

4. Dilyniant a Chynnydd – Mae'r testun ym mharagraff pump yn nodi fod "trefniadau pwrpasol wedi'u gwneud" erbyn hyn ac mae'r Bwrdd yn teimlo fod gan ELWA a'r Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant lawer eto i'w egluro o ran Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru o safbwynt sut y byddant yn gweithredu er mwyn hwyluso darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

5 Mae paragraff deg yn nodi amcanion gwellcymru.com ynghylch "cynnydd

gwirioneddol tuag at wneud dwyieithrwydd yn norm". Er mwyn cyflawni hyn, rhaid mynd i'r afael â nifer o faterion, yn enwedig ym maes Addysg Gyrfaoedd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysgu Dinasyddiaeth a dulliau "cymunedol" ar gyfer dysgu gydol oes. Er enghraifft, byddai darparu mwy o brofiad gwaith dwyieithog i ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg o gymorth yn y broses o wneud pobl yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd dwyieithrwydd yn y gweithle.

6 Ymhlith yr ieuengaf, bydd y camau a gymerwyd yn ddiweddar gan y Gweinidog i ddarparu addysg feithrin i bob plentyn ar ôl cyrraedd tair oed yn cyfrannu at feithrin sgiliau dwyieithog, ar yr amod y bydd y ddarpariaeth hon ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cymuned. Mae’r ddogfen yn rhoi pwyslais ar ofal plant "gofal parhaus", ac mae’r Bwrdd yn teimlo fod yn rhaid i hyn ddatblygu fel y bydd yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i brofi gofal dwyieithog yn ei ardal neu gymuned leol. A chofio bod disgyblion yn gallu dysgu ieithoedd yn well pan ydynt dan bump oed, dyma’r cyfnod gorau i greu plant ifanc dwyieithog, a hynny oherwydd eu gallu o ran caffaeliad iaith yn y blynyddoedd cynnar.

**Sgiliau Sylfaenol**

7 Ym maes Sgiliau Sylfaenol, ni wnaed unrhyw ymchwil eto i lythrennedd Cymru yn nhermau'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Mae’r Bwrdd yn deall fod yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn Llundain ar hyn y bryd yn ystyried cynigion ar gyfer prosiect ymchwil i’r perwyl hwn, a bydd hyn yn werthfawr o ran dangos sylfaen sgiliau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Rhaid i'r ymchwil hon fwydo ein strategaeth genedlaethol, a dylai'r strategaeth gynnwys cynllun ar gyfer llythrennedd dwyieithog wedi’i addasu i ddiwallu anghenion Cymru sy’n gynyddol ddwyieithog . Dylai ystyried y cyfleoedd sydd gan bobl dros 16 oed i ddefnyddio’r iaith Gymraeg, yn enwedig mewn cyd-destunau galwedigaethol ac AB/AU. Galli fod yn rhy gynnar, felly, i fabwysiadu unrhyw strategaeth sgiliau sylfaenol cyn cyhoeddi’r ymchwil uchod. Mae angen ymchwilio i’r ffactorau cymhleth sy’n ymwneud â defnydd a dewis iaith ar gyfer pobl ddwyieithog, ac yn enwedig y dewisiadau a wneir gan y grp oedran 16+.

**Bagloriaeth i Gymru a TGCh**

8 Mae’r Bwrdd erioed wedi bod yn gefnogol iawn i’r Fagloriaeth Gymreig, ac i’r diben hwn credwn y dylid symud ymlaen â’r peilot gyda phwyslais amlwg ar sgiliau Cymraeg a dwyieithog wrth wraidd astudiaethau’r holl fyfyrwyr. Byddai hyn yn cynnig modd i gael parhad ar ôl CA4 o ran sgiliau iaith gyntaf ac ail iaith, a byddai'n paratoi myfyrwyr yn well ar gyfer y gweithle dwyieithog. Mae paragraff deuddeg yn sôn bod TGCh yn trawsnewid addysgu a dysgu, ac mae’n hen bryd datblygu mwy o raglenni a meddalwedd TGCh dwyieithog/cyfrwng Cymraeg. Mae’r Bwrdd yn teimlo fod angen cydraddoldeb mewn darpariaeth o’r fath, a bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a myfyrwyr Cymraeg ar hyn

o bryd yn bell y tu ôl i'r ddarpariaeth TGCh sydd ar gael trwy gyfrwng y Saesneg.

## Y Sector Gwirfoddol

9 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r ffaith fod y ddogfen yn cydnabod "anghenion ac amgylchiadau neilltuol" Cymru a chymorth hanfodol y sector gwirfoddol. Mae hyn i'w weld yn glir yng ngwaith Mudiad Ysgolion Meithrin, sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol ledled Cymru. Dylai gwaith sefydliadau o'r fath fod wrth wraidd ein strategaethau yn y dyfodol yng Nghymru, a dylem geisio adnabod a datblygu eu harferion gorau, a dysgu oddi wrth eu patrymau o weithio ar y cyd wrth gynllunio darpariaeth.

## Trosglwyddo Cynradd-Uwchradd

10 Mae sicrhau gwell trosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn darged i'w groesawu, ac nid oes neb eto wedi mynd i'r afael, ar lefel genedlaethol, â'r cysylltau addysgol a chymdeithasol sy'n cynnal y trosglwyddo hwn. Mae'r Bwrdd yn ymddiddori'n arbennig ym mharhad darpariaeth ieithyddol a chyfrwng addysg rhwng CA2 a CA3, ac mae eisoes wedi cyllido rhai prosiectau pontio trwy gyfrwng ei grantiau i gynorthwyo Athrawon Bro yng Nghymru. Mae sawl patrwm diddorol ac effeithiol o brosiectau pontio yn bodoli hefyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle mae cyrsiau haf yn cyfuno'r gwaith ar ddiwedd blwyddyn 6 â phrosiectau blwyddyn 7. Yn aml mae hyn yn cyd-fynd â chwrs preswyl haf a mentora disgyblion gyda chyfranogiad gweithredol gan ddisgyblion blynyddoedd 12/13. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymoedd De Cymru wedi mabwysiadu'r patrwm gwaith hwn am o leiaf ddegawd, ac mae gan yr arfer da hwn llawer i'w gynnig i'r sector cyfrwng Saesneg o ran ei lwyddiannau. Mae'r Bwrdd yn awgrymu y dylai'r Cynulliad ystyried patrymau pontio ac yna amlinellu arferion gorau er mwyn bwydo'i strategaeth genedlaethol. Fe fyddai'r Bwrdd yn hapus i gynorthwyo gyda'r broses hon.

## Pennod 2

## Y Blynyddoedd Cynnar

11 Fel y nodwyd uchod, mae'r Blynyddoedd Cynnar yn faes diddordeb allweddol i'r Bwrdd. Cafodd gwaith MYM ei grybwyll yn barod, ac yng nghyd-destun sefydlu Canolfannau Blynyddoedd Cynnar, mae'r Bwrdd yn croesawu'r nod o sefydlu o leiaf un ganolfan o'r fath ym mhob awdurdod erbyn 2002, ac mae'n nodi y dylai hyn fod mewn partneriaeth â chyrff megis MYM. Mae angen i'r canolfannau hyn weithredu fel adnoddau cwbl ddwyieithog o'r dechrau, ac mae angen ystyried darpariaeth ddwyieithog wrth gynllunio "gofal parhaus". A chofio ein bod yng nghyfnodau cynllunio'r datblygiadau hyn, mae gan Gymru gyfle nawr i gael system lle mae pob plentyn yng Nghymru'n cael

peth darpariaeth blynyddoedd cynnar o drochi cyfrwng Cymraeg, a hyn mewn modd sy’n gwneud i rieni sylweddoli manteision dwyieithrwydd pan fyddant yn dewis cyfrwng addysg eu plant yn yr ysgol gynradd.

**Anghenion Addysgol Arbennig**

12 Wrth ddarparu ar gyfer plant ag anghenion arbennig, rydym i gyd yn cydnabod y dylid anelu at adnabod angen ac ymyrryd yn gynnar, ac wrth addasu cwricwlwm i ddiwallu anghenion disgyblion, mae ar Gymru angen y mecanweithiau, yr adnoddau a’r personél priodol i allu cynorthwyo disgyblion o deuluoedd Cymraeg a dwyieithog, a'r rhai y mae eu rhieni yn dymuno iddynt dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Bwrdd adroddiad ar Anghenion Addysgol Arbennig a gafodd ei noddi'n rhannol gan y Cynulliad, sef "Cydnabod Angen", ac awgrymwn y dylid defnyddio hwn i fwydo’r strategaeth ar gyfer darpariaeth AAA yng Nghymru. Mae ei argymhellion nid yn unig yn adnabod meysydd allweddol ar gyfer datblygu, ond maent hefyd yn ceisio hybu mwy o gydweithio rhwng asiantaethau yn y maes hwn. Yn ogystal, mae’r adroddiad yn amlinellu sawl enghraifft o arferion da ledled Cymru.

13 O ran AAA, un maes sy’n achosi pryder i'r Bwrdd yw’r diffyg data a mecanweithiau priodol i adnabod disgyblion AAA o gartrefi Cymraeg. Yn aml, cânt ddarpariaeth mewn lleoliadau Saesneg lle nad yw ei anghenion ieithyddol o angenrheidrwydd yn cael eu diwallu mewn cyd-destun addysgol nac mewn cyd-destun gofal iechyd. Mae angen mynd i’r afael â hyn ar frys os yw’r disgyblion hyn i gael cyfle cyfartal. Er enghraifft, mae paragraff 21 yn nodi nifer y disgyblion â datganiadau, ond nid oes modd i ni wybod sawl un o'r rhain sydd ag anghenion dwyieithog neu anghenion Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae’r disgyblion hyn, i’r diben hwn, "ar goll yn y system", ac mae angen darparu ar eu cyfer.

14 Mae paragraff 22 yn annog ysgolion i feincnodi eu perfformiad yn ôl ysgolion eraill o ran darpariaeth AAA, a rhaid cymryd gofal mawr yma oherwydd ni fyddai’n iawn nac yn deg i fynnu bod lleoliadau AAA cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog sy’n ei chael hi’n anodd oherwydd diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg a phersonél arbenigol cyfrwng Cymraeg yn cymharu eu hunain yn uniongyrchol â, dyweder, ysgol AAA cyfrwng Saesneg sy’n "gyfannol" ac a gafodd ei hadeiladu’n benodol i bwrpasau AAA. Mae’n deg dweud nad yw unedau AAA cyfrwng Cymraeg yn cael eu trin yn gyfartal o ran cyllid ac adnoddau, a bod nifer yr unedau a’r ysgolion AAA cyfrwng Cymraeg yng Nghymru sy’n gallu darparu’r amrediad llawn o wasanaethau dwyieithog i ddisgyblion ag AAA cymedrol a dwys yn ofnadwy o isel.

15 Mae mabwysiadu dull strategol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer anableddau prin i'w groesawu, yn enwedig gyda golwg ar natur ddigyswllt y gwasanaethau presennol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth, â nam ar eu golwg a’u clyw, ac sydd hefyd ag anghenion

dwyieithog. Un ffordd bosibl o wella gwasanaethau yw rhoi mwy o arian i'r sefydliadau gwirfoddol priodol, a darparu patrymau o arferion da y gellir eu defnyddio ar draws nifer o leoliadau. Un o brif gasgliadau adroddiad AAA y Bwrdd yw bod yna barodrwydd gan bron pawb i rannu arferion da, ond ceir ychydig iawn o fforymau/ cyfleoedd i hwyluso'r prosesau angenrheidiol. Hoffem weld hyn yn swyddogaeth gydgysylltiol allweddol i'r Cynulliad, ac rydym yn croesawu ei nod datganedig i sefydlu set o ddata cyffredin ar gyfer AAA y gellid ei defnyddio gan yr holl wasanaethau. Dylai anghenion a niferoedd y cleientiaid hynny o gartrefi a/ neu ysgolion dwyieithog/ Cymraeg gael eu nodi'n glir yn y data. Nawr yw'r amser i ddechrau cynllunio casglu data a'i natur er mwyn diwallu anghenion Cymru ddwyieithog. Byddai'r Bwrdd yn hapus i gynorthwyo gyda'r broses hon pan fo angen.

16 O ran Côd Ymarfer newydd AAA, mae yna gyfle i gael gwared ar yr amrywiaeth sylweddol rhwng awdurdodau o safbwynt pan fo angen rhoi datganiad i ddisgybl, a llunio Côd sy'n hwyluso cydraddoldeb mewn darpariaeth ieithyddol. Croesewir y nod datganedig o sefydlu Tribiwnlys AAA ar gyfer Cymru a hawliau Anabledd Addysgol yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r argymhelliad yn adroddiad AAA y Bwrdd. Dylai'r Tribiwnlys AAA arfaethedig ar gyfer Cymru weithredu'n gwbl ddwyieithog ym mhob gweithgaredd. Gan gyfeirio'n benodol at Hawliau Anabledd, fodd bynnag, rydym yn gofyn a yw hyn yn creu problem gyfreithiol bosibl i'r Cynulliad oherwydd rydym yn deall nad yw Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ber datganoledig i'r Cynulliad.

17 Un ffordd o ddiwallu'r galw am therapïau yn y ddwy iaith fyddai recriwtio a hyfforddi mwy o therapyddion megis therapyddion lleferydd ac iaith, ond er mwyn gwneud hyn, mae angen cyllido mwy o leoedd hyfforddi ac mae angen gofalu bod digon o leoliadau gwaith clinigol ar gael. Rhaid i ymchwil i lefel a natur argaeledd lleoliadau gwaith/ hyfforddi gyd-fynd â chynnydd yn y nifer sy'n derbyn hyfforddiant.

**Ysgolion cynradd**

18 Mae'r Bwrdd yn cytuno â'r bwriad i leihau maint dosbarthiadau ac mae'n croesawu'r ffaith fod disgyblion wedi cyrraedd neu wedi llwyddo y tu hwnt i'r targedau a nodwyd ar gyfer profion ac asesiadau mewn Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Mathemateg ar gyfer 2000. Mae'r syniad o roi'r gorau i'r profion cenedlaethol ar gyfer plant saith oed i'w groesawu oherwydd byddai'n well defnyddio'r adnoddau ar gyfer hyn i gynorthwyo athrawon i godi safonau yn y cyfnod hwnnw o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn teimlo y dylai cyfnod sylfaen statudol o 3 oed i 7 oed sy'n integreiddio "Canlyniadau Dymunol" â'r Cwricwlwm Cenedlaethol gael ei gynllunio'n ofalus er mwyn rhoi pob cyfle

posibl i bob ddisgybl fod yn ddwyieithog. Fe ellid llunio cwricwlwm ychydig yn llai rhagnodol er mwyn rhoi mwy o amser yn y dosbarth ar gyfer sgiliau caffael dwyieithrwydd mewn amgylchedd traws-gwricwlaidd.

19 Mae'r Bwrdd yn siomedig nad yw'r ddogfen yn cynnig fframweithiau posibl i'w hystyried gan yr ymatebwyr yn nhermau'r cyfnod sylfaen hwn, ac mae'n gofyn a wnaed astudiaeth o'r cyfryw Gyfnodau 3-7 mewn gwledydd eraill er mwyn adnabod arferion da yn hyn o beth. Mae ar unrhyw "Gyfnod" sy'n bwriadu hybu trosglwyddo di-dor rhwng y Blynyddoedd Cynnar ac Addysg Gynradd angen cyfnod o orgyffwrdd sy'n cyfuno elfennau gorau'r ddau gyfnod, ac sy'n cyfuno chwarae ac addysg yn y camau cyntaf. Dylid anelu at "drosglwyddo di-dor" sy'n caniatáu i bob plentyn gael mynediad i ddarpariaeth gwbl ddwyieithog ar draws yr holl gwricwlwm, a dylai'r Cynulliad ystyried gwario mwy ar hyfforddiant athrawon dwyieithog a'r agenda datblygu proffesiynol barhaus er mwyn hybu'r amcan hwn. Fel man cychwyn i'r drafodaeth, awgrymwn y patrwm darpariaeth a ganlyn a allai fod yn sail ar gyfer ystyried y Cyfnod Sylfaen.

i Tair oed – darpariaeth y blynyddoedd cynnar sy'n cynnig cyfle i bob disgybl gael rhywfaint o ddarpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg a gofal "amlap" i fodloni anghenion y rhieni - a hyn yn y gymuned leol, gyda threfniadau teithio addas.

ii 4-5 Oed- cwricwlwm ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac addysg gynradd lle defnyddir dulliau cytbwys sy'n seiliedig ar y cwricwlwm a chwarae, a hyn yn cyd-fynd â'r defnydd o TGCh gyda chymorth athrawon ymgynghorol megis Athrawon Bro (gyda chyllid ychwanegol). Dylai'r ddarpariaeth hon fod yn ddwyieithog neu'n ddarpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg.

iii 5-7 Oed – dull cwricwlaidd trwy gyfrwng yr iaith a ddewisir gan y rhieni, gyda mwy o ddarpariaeth Cymraeg ail-iaith neu ddarpariaeth iaith-gyntaf mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn teimlo y dylai'r cysylltiad ail-iaith gynyddu'n sylweddol o'i gymharu â'r ddarpariaeth bresennol er mwyn codi safonau dwyieithrwydd ledled y gymuned ysgolion. Dylai ymwneud â dull sy'n fwy traws-gwricwlaidd a gallai ymwneud â gwaith partneriaeth strwythurol gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o iaith a gwaith cymunedol. Byddai TGCh yn hanfodol hefyd ar gyfer y bartneriaeth waith hon.

**Y Continwwm Dwyieithog**

20 Wrth gwrs, golyga hyn "lleihau'r bwlch" rhwng disgyblion iaith gyntaf ac ail iaith, ac felly caniatáu continwwm dwyieithog hwylus er mwyn i'r disgyblion fedru symud yn eu blaen yn ôl eu gallu a dewis y rhieni drwy gydol eu gyrfaoedd ysgol.

21 Dylid sicrhau mwy o ddwyieithrwydd wrth ddysgu disgyblion hynny y mae eu rhieni

wedi penderfynu eu hanfon i ysgolion cyfrwng Saesneg, a hynny er mwyn iddynt ennill sgiliau dwyieithog cynharach a allai eu paratoi'n well ar gyfer addysg ddwyieithog yn ddiweddarach pe baent yn penderfynu newid o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, mae newid o'r fath yn anodd iawn oherwydd mae'n bosibl nad oes gan y disgyblion sy'n dymuno gwneud hynny ddigon o sgiliau dwyieithog "caffaeliad cynnar"- mae ymchwil ryngwladol yn cydnabod gwerth y sgiliau hyn i brosesau meddwl a dysgu plant – i'w galluogi i ennill ei sgiliau Cymraeg yn ddigon cyflym i allu trosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

22 Mae'n amlwg nad yw'r fformat uchod yn ddim mwy nag awgrym gweithredu cychwynnol, ond dylai unrhyw fformat sy'n cael ei fabwysiadu geisio hybu'r cysyniad o gontinwwm dwyieithog i bob disgybl, a chau'r bwlch rhwng disgyblion trochi a dysgwyr ail-iaith. Bu'n nod gan y Bwrdd ers amser hir (a chafodd hyn ei ddatgan o hyd yn ein dogfennau strategaeth i'r Cynulliad) i greu un continwwm iaith sy'n caniatáu mynediad a chynnydd pan yw'n briodol i'r disgybl, ac nad yw'n gosod terfynau mor bendant rhwng dwy raglen astudiaeth benodol. Wrth gwrs, byddai polisi o'r fath ag angen llawer o fuddsoddi o ran ymchwil, adnoddau a hyfforddiant, a hefyd byddai angen newid y cwricwlwm sy'n cael ei weinyddu ar hyn o bryd gan ACCAC. Os ydym i gyd yn rhannu'r nod o gael cenedl ddwyieithog, ymddengys taw dyma'r ffordd resymegol ymlaen, oherwydd byddai hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer parhad a datblygiad tebyg ar gyfer sgiliau'r disgyblion wrth iddynt symud i addysg uwchradd a thu hwnt. Byddai'r Bwrdd yn awyddus i gynorthwyo'r Cynulliad, ar y cyd ag eraill, i weithredu unrhyw Gyfnod Sylfaen arfaethedig. Mae'r Bwrdd yn gofyn i'r Cynulliad gynnal adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol o ran y Rhaglenni Astudiaeth a'r lefelau cyrhaeddiad ar gyfer y Gymraeg fel ail iaith. Cafwyd cynnydd eisoes o ran ysgolion yn gweithredu rhaglenni astudiaeth ail-iaith, a dylid nodi cyfraniad gwerthfawr Athrawon Bro i'r broses hon. Fodd bynnag, teimlwn ei bod bellach yn bryd adolygu targedau cwricwlaidd, effeithiolrwydd y rhaglenni astudiaeth hyn o ran cyrhaeddiad disgyblion a pharhad darpariaeth, a hynny er mwyn ystyried dulliau posibl eraill o godi safonau ail-iaith ac effeithiolrwydd addysgol yr amser sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar gyflenwi'r Rhaglen hon mewn ysgolion. Mae angen cytuno ar dargedau newydd ar gyfer cyrhaeddiad – a hynny ar lefel genedlaethol – ac mae angen mwy o arweiniad i athrawon o ran methodolegau ystafell ddosbarth. Dylid ystyried dull "mwy creadigol" ar draws y cwricwlwm i'r diben hwn.

**Trosglwyddo, Cyrff Llywodraethu a Diffinio Ysgolion**

23 Mae paragraff 24 yn canolbwyntio ar y trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd, ac mae'r ymateb hwn eisoes wedi crybwyll patrymau sy'n bodoli mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd, mae timau Athrawon Bro yn ymwneud â'r trosglwyddo hwn mewn sawl ardal yng Nghymru. Mae'r teuluoedd neu'r consortia a nodir ym mharagraff 28 yn bodoli eisoes mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac os sefydlir rhagor dylid rhoi ystyriaeth i anghenion ieithyddol o'r cychwyn. Os yw ysgolion cynradd bach i ffurfio "grwpiau o dan un tîm arweinyddiaeth ac un corff llywodraethu yn

unig", rhaid cymryd gofal mawr wrth fynd i’r afael ag anghenion cymunedau Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rhaid craffu ar ddwyieithrwydd ar draws Cymru yn y cyd-destun hwn, a dylid cofio fod llawer o ysgolion yn gweithredu fel ysgolion dwyieithog naturiol, ond nid ydynt yn ysgolion penodedig cyfrwng Cymraeg. Yn wir, rhaid ymdrin â’r broblem o ddiffyg diffiniadau clir ynghylch natur ysgolion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg cyn y gall y broses "grwpio" hon ddigwydd.

24 Mae papur ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan CLlLC yn gwneud sawl pwynt i'r cyfeiriad hwn, a dylai fwydo camau nesaf y Cynulliad. Bu'r Bwrdd yn cymryd rhan yn nhrafodaeth Tasg a Gorffen CLlLC ar y pwnc hwn, a bu’n cynorthwyo CLlLC i lunio’r papur terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol.

## Cynllunio Cymunedol

25 Wrth hybu cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gwaith cymunedol dylid archwilio a datblygu gwaith Mentrau Iaith a’r Urdd, a gellid defnyddio eu harferion da fel sail ar gyfer gwaith cymunedol pellach. Er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl, dylid defnyddio adnoddau sy’n seiliedig ar gymunedau ac ar adnoddau TGCh, ac mae angen i gynllunio partneriaeth ar draws pob sector fod yn fwy strwythurol. O ran cynnwys Cynghorau Ysgolion fel rhan o'r darlun ehangach, mae’r Bwrdd yn croesawu eu bodolaeth a’u datblygiad, ond fel rhan yn unig o raglen ystyrlon o Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Dinasyddiaeth ym mhob ysgol. Yn rhy aml yn y gorffennol, buont mewn gwactod ac nid oedd disgyblion yn teimlo y gallent ddod i berthynas uniongyrchol â’u gweithgareddau. Er mwyn iddynt fod yn wir gynrychioliadol o’r disgyblion, rhaid i’r disgyblion deimlo eu bod yn berchen arnynt a rhaid iddynt fod yn rhan o gynlluniau partneriaeth leol a strategaethau cymunedol, er mwyn i’r disgyblion deimlo fod eu hysgol yn rhan o’u cymuned lle rhoddir sylw i’w llais. Byddai hyn yn hwb enfawr i fywyd cymunedol, yn enwedig lle ceir dadrithiad ymhlith y disgyblion.

## Pennod Tri

## Addysg Uwchradd a Dysgu Gydol Oes

26 Mae’r Bwrdd yn croesawu’r hyn a nodir ym mharagraff 31 ynghylch amrediad o ddarpariaethau yn y ddwy iaith, ond dymuna nodi na chawsom ein cynnwys yn y "Grp Lleihau’r Bwlch", sy’n cynnwys rhestr glir o eraill â diddordeb. Rydym yn gofyn, felly, sut y bydd ffocws cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y Grp hwn yn cael ei warantu a sut y bydd hyn yn cyfrannu at adnabod y gweithredu sydd ei angen ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?

27 Mae’r Bwrdd yn cytuno y dylai ysgolion fod yn fwy o adnodd cymunedol, a bod angen ymchwil i fwy o bosibiliadau ynghylch eu defnyddio i ddibenion dysgu gydol oes yn y

gymuned. Mae'r Bwrdd hefyd yn cefnogi'r cysyniad o atgyfnerthu rôl dysgu o bell a TGCh, a'r defnydd ohonynt, ond mae'n nodi bod angen datblygu mwy o feddalwedd ac adnoddau TGCh dwyieithog er mwyn cynnig y mynediad gorau posibl i hyn ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn ddiwahân.

**PPC**

28 Wrth nodi Ysgol Penweddig fel patrwm i'w ddilyn ar gyfer partneriaethau preifat-cyhoeddus, nodwn y dylid ymchwilio'r trywydd hwn ymhellach er mwyn darparu mwy o ysgolion cyfun cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond cytunwn â'r hyn a nodir ym mharagraff 38 o ran y risgiau gwirioneddol wrth "symud ar raddfa eang" tuag at fesurau nas profwyd ac a gyflenwir drwy'r sector preifat yn unig. Cydnabyddir yn eang fod cryfder ein system addysg yn deillio o'r ffaith ei bod yn cael ei darparu gan Awdurdodau Addysg Lleol, ond gellir cryfhau hyn fel y gall pob AALl ddarparu'r un lefel o wasanaethau a chyllid. Gallai hynny ddigwydd gyda phartneriaid preifat neu gydag arian ychwanegol o'r Cynulliad. Wrth gyflenwi'r gwasanaethau ychwanegol i'r ysgolion megis rhai gwasanaethau ymgynghorol, mae llawer o'r Awdurdodau Addysg Lleol lleiaf yn ei chael hi'n anodd yn ariannol i gyflenwi gwasanaethau o'r un ystod â'r rheini a gyflenwir gan yr awdurdodau mwyaf, ac mae angen mynd i'r afael â hyn o ran cyllido.

**Argymhellion ar gyfer Lloegr**

29 Mae'r Papur yn gofyn i ni ymateb i'r cynigion sy'n cael eu hystyried yn Lloegr, ac mae'r Bwrdd yn teimlo nad ydynt o angenrheidrwydd yn briodol hefyd ar gyfer ein system yng Nghymru. Gall hyn fod yn arbennig o wir am y cynnig i roi "mwy o ymreolaeth i ysgolion llwyddiannus penodedig" mewn materion megis tâl a phynciau. Gallai hyn greu nifer o broblemau, yn enwedig mewn ysgolion poblogaidd lle nad oes digon o le ar gyfer pawb sy'n dymuno eu mynychu. Gan gofio hyn, gallai cydraddoldeb mewn darpariaeth ieithyddol fod yn fater dadleuol mewn maes lle, dyweder, mae ysgol cyfrwng Cymraeg neu Saesneg yn arbenigo i raddau trwy un cyfrwng yn unig. Byddai hyn yn golygu y gellid cael un ardal heb gyfle cyfartal yn nhermau'r cwricwlwm. Yn wir, ym marn y Bwrdd, mae'r cynnig hwn yn rhy debyg i agenda'r ysgolion arbenigol yn Lloegr, a gallai ledaenu'r bwlch rhwng y safonau isaf ac uchaf. Trwy wneud hynny gallai greu llawer o densiynau cyfle cyfartal, dadrithiad a rhoi'r argraff o annhegwch oddi mewn i gymunedau. Os yw cynllunio cymunedol yn yr ystyr ehangaf yn mynd i lwyddo, gall hyn fod yn faen tramgwydd.

**Fforwm Derbyniadau**

30 Os bydd hi'n ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol sefydlu fforwm derbyniadau, dylai hwn weithredu'n ddwyieithog ym mhob AALl, ac os darperir ar gyfer cyrff llywodraethu er mwyn iddynt allu cydweithio, rhaid "galluogi" y broses hon hefyd i fod yn ddwyieithog.

## Ysgolion Uwchradd a Pherfformiad

31 Mae’r Bwrdd yn teimlo ei bod yn bryd erbyn hyn i wella’r continwwm iaith a grybwyllwyd yn gynharach, yn enwedig o ran y Gymraeg fel ail iaith a phynciau a ddysgir ac a brofir/arholir yn allanol trwy gyfrwng y Gymraeg, Mae’r ddeddfwriaeth addysg gyfredol yn ei gwneud yn gymhleth i ysgol sy’n dymuno cynnig mwy o byncïau trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes "tir canol" i’r rhaglenni astudiaeth ar gyfer Cymraeg iaith-gyntaf ac ail-iaith fel y gall disgybl ail-iaith drosglwyddo’n rhwydd i'r rhaglen iaith-gyntaf. Mae gosod terfynau fel hyn yn amharu ar gynnydd ac yn creu rhwystredigaeth. Rhaid creu continwwm iaith ar frys lle mae’r raddfa’r ail-iaith yn disgyn yn raddol i’r raddfa iaith-gyntaf. Rydym hefyd yn gofyn i'r Cynulliad edrych eto ar ei reoliadau ynghylch niferoedd y pynciau y gellir eu hamrywio’n flynyddol o ran cyfrwng eu haddysgu.

## Dinasyddiaeth ac Ymddygiad

32 Os, fel y mae paragraff 41 yn awgrymu, ffurfir tîm o ymarferwyr ac eraill i ddatblygu arweiniad ynghylch safonau a dulliau llythrennedd/ rhifedd, rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy’n diwallu anghenion disgyblion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae’r Bwrdd yn croesawu sylwadau’r adroddiad ar Ddinasyddiaeth ac Ymddygiad ac yn teimlo y dylai’r agenda Ddinasyddiaeth gynnwys rhaglen (gydag adnoddau dwyieithog) ar gyfle cyfartal, ymwybyddiaeth o iaith a dwyieithrwydd mewn cymdeithas. Dylai’r rhain fod yn rhan o’r Cwricwlwm Cymreig ac o raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgolion.

## Y Cyfnod 14-19 Oed

33 Mae’r Bwrdd yn dymuno pwysleisio’r angen am fwy o gyrsiau a chyfleoedd galwedigaethol dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, mwy o barhad o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach ac addysg uwch a mwy o gyrsiau’n cael eu haddysgu naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy ddefnyddio methodolegau addysgu dwyieithog. Fel y nodwyd, rydym yn croesawu’r Fagloriaeth Gymreig ac rydym yn gofyn i’r Cynulliad ofalu fod iddi ddimensiwn Cymreig a bod addysgu Cymraeg yn graidd iddi.

34 Mae gwell Rhaglenni Profiad Gwaith a’r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i’w croesawu cyhyd ag y bo digon o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu gwarantu. O ran yr opsiynau ym mharagraff 53, mae’r Bwrdd yn pryderu’n fawr ynghylch y bwriad i ofyn i ACCAC roi cyngor ar opsiynau posibl ar gyfer hyblygrwydd i ysgolion drwy "ddatgymhwyso’r Cwricwlwm Cenedlaethol", yn enwedig am fod hwn yn nodi CA 4 fel maes i’w dargedu ar gyfer datgymwysiadau o’r fath. Gan ystyried datblygiad hanesyddol y Gymraeg fel pwnc yn CA4, rydym yn gofyn i'r Cynulliad beidio â chaniatáu

unrhyw newid i'r cwricwlwm cenedlaethol o ran dysgu'r Gymraeg i bob disgybl yng Nghymru tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Mae Cynlluniau'r AALl yng Nghymru eisoes yn datgan y dylai pob disgybl yng Nghymru allu sefyll arholiad Cymraeg sy'n cael ei ddilysu'n allanol erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4. Byddai unrhyw newid i'r sefyllfa hon yn tanseilio'n ddifrifol y gwaith a wnaed gan bob un o'r 22 AALl. Fe fyddai hefyd yn tanseilio agenda ddwyieithrwydd y Cynulliad. Yn ogystal, byddai datgymhwysiadau yn CA3 yn destun pryder mawr i'r Bwrdd a hoffem gael mwy o fanylion am gynigion o'r fath. Rydym yn gofyn ar ba sail y byddai datgymwysiadau o'r fath yn cael eu caniatáu a sut fyddent yn cael eu monitro?

**Amgylcheddau Cefnogol**

35 Mae'r Bwrdd yn croesawu'r bwriad i gynorthwyo teuluoedd yn ystod y diwrnod ysgol a'r tu allan iddo. Mae'r patrymau gwaith a'r ffyrdd o fyw cyfredol yn golygu bod llawer o ddisgyblion a'u teuluoedd angen cymorth yn y cyd-destun hwn. Mae angen mwy o gymorth ar ôl ysgol, a dylid cynnig hwn yn ddwyieithog. Mae'n amlwg y byddai angen hyfforddiant a phersonél addas, a dylai'r cyfan fod yn rhan o'r agenda gynllunio gymunedol.

36 Mae paragraff 56 yn nodi'r bwriad i gomisiynu arolwg o'r celfyddydau gan ESTYN (CA2/3). Teimla'r Bwrdd y dylid ymchwilio i arferion gorau llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag arferion gorau'r Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a phrosiectau Theatr Mewn Addysg. Mae gan Gymru sail ddiwylliannol gref i'w gweithgareddau allgyrsiol, a gellir cryfhau hyn oddi mewn i'r cwricwlwm. Dylid ystyried cais "Caerdydd-Cymru" i fod yn Ddinas Ddiwylliant Ewrop yn y cyd-destun hwn – yn ogystal â gwaith ein hamgueddfeydd a'n horielau. Mae'r Bwrdd o'r farn y dylai cynllunio cymunedol a'r celfyddydau fod â pherthynas fwy clòs, oherwydd mae'r berthynas hon yn cryfhau cymunedau, gall hybu dwyieithrwydd a sawl sgil gymdeithasol, a gall leihau dadrithiad drwy gyfranogiad gan bobl ifanc. Y ffordd ymlaen yw defnyddio patrwm cymuned cynhwysol a chreadigol wrth ymwneud â'r holl gelfyddydau ac addysg. Mae yna gyfleoedd i gyfuno'r ymagwedd hon â rhaglenni "gofal amlap" a gwaith cyrff gwirfoddol a mentrau iaith. Mae'n amlwg fod gan hyn i gyd oblygiadau cyllidol i'r Cynulliad.

**Adnabod Llwyddiant**

37 Yn ôl paragraff 58, bwriedir gwahodd ESTYN i gynhyrchu "Crynodeb Chwech misol" o arferion da. Rydym yn croesawu hyn cyhyd ag y bo'n cynnwys enghreifftiau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol ym meysydd darpariaeth ôl-14 oed, darpariaeth alwedigaethol ac AAA.

**Pennod 4**

38 Mae’r Bwrdd yn croesawu’r rhan o’r Bennod hon ynghylch dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae’n credu y bydd adolygiad polisi ADGO o’r Iaith Gymraeg yn astudiaeth ddefnyddiol o ran mapio’r ffordd ymlaen. Cafodd twf addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei lesteirio gan ddiffyg adnoddau a hyfforddiant dwyieithog, ac mae angen dybryd i wella maes hyfforddiant galwedigaethol a darpariaeth ôl-16 oed .

39 Mae’r ddogfen yn nodi’r bwriad i drefnu bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei rheoli fel rhan o strategaeth pob AALl i gael cydbwysedd ar gyfer lleoedd mewn ysgolion o ran cyflenwad a galw, ac mae’r Bwrdd yn croesawu hyn yn fawr. Cytunwn fod darpariaeth ôl-16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg yn "anghyson a thenau" ac mae gennym bryderon ynghylch rôl ACCAC o ran darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg a phrofion Sgiliau Allweddol cyfrwng Cymraeg. Hyd yma, nid yw cefnogaeth gyfredol y Cynulliad i ddatblygiad NVQ cyfrwng Cymraeg wedi cyflawni llawer er gwaethaf sawl blwyddyn o fuddsoddi, a gofynnwn am adolygiad llwyr o’r trefniadau presennol ac am lunio strategaeth newydd er mwyn adeiladu ar waith y prosiect hwn fel rhan o ymagwedd fwy cyfannol tuag at hyfforddiant galwedigaethol.

**Cymraeg i Oedolion**

40 Mae’r galw am wersi Gymraeg i Oedolion yn cynyddu’n gyflym. Roedd 21,011 wedi cofrestru ar gyrsiau ym 2001, mewn cymhariaeth â 13,330 ym 1994. Mae’r cynnydd hwn yn dangos yn glir fod ar Gymru angen llwybr strwythuredig cenedlaethol ar gyfer dysgu ar bob lefel, ac un sy’n derbyn cyllid digonol i ddiwallu galw cynyddol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid wedi’i dargedu’n benodol at hyfforddi tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion, ac mae hyn wedi golygu diffyg darpariaeth ariannol ddigonol mewn sawl maes. Mae hyn yn arbennig o wir am ardaloedd gwledig lle mae prinder cyllid wedi golygu nad yw cyrsiau yn cael eu rhedeg, ac mae’r Bwrdd yn teimlo fod yn rhaid iddo nodi fod pwysedd maes y rhaglen ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn llai nag ar gyfer dysgu Saesneg fel iaith tramor. Gan ystyried y statws a roddir i’r Gymraeg yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 a’r defnydd swyddogol ohoni gan y Cynulliad, mae sefyllfa o'r fath yn hollol annerbyniol.

**41 Mae’r Bwrdd yn gofyn i'r Cynulliad ystyried y datblygiadau a ganlyn:**

i Buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar bob lefel er mwyn creu Cymru ddwyieithog, a gofalu bod y ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg i Oedolion wrth wraidd unrhyw fuddsoddiad o'r fath;

ii Sefydlu canolfan ddysgu rithiol sy’n datblygu ac yn hyrwyddo dysgu gydol oes cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylai hyn gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar, ysgolion,

darpariaeth AAA, AB,AU, dysgu galwedigaethol, dysgu’n seiliedig ar y gymuned, dysgu gydol oes a Chymraeg i Oedolion. Gallai hyn gael ei redeg yn ganolog gan gorff megis ELWA, a gellid sefydlu safleoedd dibynnol rhanbarthol. Gallai hyn ddod yn rhan o agenda cynllunio cymunedol y Cynulliad a gallai hefyd gynnwys ymchwil hanfodol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dwyieithrwydd a Chymraeg i Oedolion. Gallai'r adnodd hwn weithio ar y cyd â Mentrau Iaith i fapio’r angen ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gweithle. Gallai datblygiad o’r fath gynnwys gwaith y prosiect NVQ cyfrwng Cymraeg ac agweddau ar AU drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhinwedd mewn atgyfnerthu cysylltiadau â’r Brifysgol i Ddiwydiant, Coleg Digidol Cymru, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a phartneriaid allweddol eraill. I gyd-fynd â hyn, gellid cael cronfa ddata o ddarparwyr gofal plant sy’n gweithredu’n ddwyieithog o'r blynyddoedd cynnar i fyny o ran gofal amlap. Os ydym wir eisiau hybu mynediad i ADGO, y dull integredig hwn yw’r ffordd ymlaen ym marn y Bwrdd.

**AU Cyfrwng Cymraeg**

42 Gan ystyried taw dim ond 2,900 o fyfyrwyr wnaeth gofrestru gyda sefydliadau AU yng Nghymru yn 2000 ac a dderbyniodd unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chan ystyried bod hanner y rhain wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau hyfforddi athrawon, mae'n amlwg fod yna angen i farchnata a chynyddu darpariaeth AU drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai sefydlu canolfan ddysgu rithiol gynorthwyo’r broses hon.

**Adolygiadau Arfaethedig**

43 Rydym yn croesawu’r bwriad i arolygu cyllido darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, a’r y nod i ysgogi ysgolion i weithredu casgliadau astudiaeth ESTYN o’r Cwricwlwm Cymreig. Croesewir ymchwil bellach i asesu "cydbwysedd cyflenwad a galw" darpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy ELWA, ond rhaid nodi y dylid bod yn ofalus wrth asesu’r galw, gan ystyried y ffaith y gallai llawer o ddarpar fyfyrwyr fod heb wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael yn ddwyieithog. Gallai ymchwil i lefelau ymwybyddiaeth darpar fyfyrwyr fod yn angenrheidiol o ran cyrsiau cyfrwng Cymraeg ,ac mae angen gwneud hyn ar fyrder.

**Dulliau Trochi ar gyfer Dysgu’r Iaith**

44 Mae angen ymchwil bellach i’r maes hwn, gan gynnwys ymchwil i sgiliau caffaeliad iaith yn 5-7 oed ac yn 11 oed, a dylid cyfuno'r ymchwil hon ag anghenion dilyniant mewn darpariaeth ieithyddol ar draws yr holl gyfnodau allweddol a’r sectorau addysgol. Mae’r paragraff hwn yn nodi hefyd fod y Cynulliad yn dymuno atgyfnerthu’r cysylltiadau rhwng Mentrau Iaith ac Ysgolion, ac mae hwn yn ddatblygiad a allai fod yn fuddiol dros ben o ran cynllunio cymunedol. Dylai'r gwaith o gymell rhwydweithiau o gyflogwyr i weithio gydag ysgolion o ran dangos y galw am y Gymraeg yn y gweithle gael ei wneud gyda

chyflenwyr a chynllunwyr PAB, a chynnwys Cwmnïau Gyrfaoedd. Mae gwaith Menter a Busnes ar ei "swyddiaduron" yn darparu patrwm o arfer effeithiol i'r diben hwn.

**TGCh.**

45 Fel y nodwyd eisoes yn yr ymateb hwn, mae yna rwystrau ieithyddol amlwg ym maes TGCh i'r rhai ag anghenion dwyieithog. Mae angen symud y rhwystrau hyn er mwyn hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol. Mae'n amlwg fod arnom angen gwell sgiliau TGCh, ynghyd â gwell cyfleusterau, adnoddau a chanolfannau dysgu, a hyn i gyd oddi mewn i fframwaith dwyieithog. Rydym yn croesawu'r bwriad i sefydlu panel ymgynghorol ar e-ddysgu a hoffem fod yn rhan o'r panel hwn. Gallai e-ddysgu wneud llawer i gefnogi darpariaeth cyrsiau iaith Gymraeg, ond dylid cofio na ddylai hyn fodoli fel adnodd ar ei ben ei hun. Yn hytrach, dylai gyd-fynd ag addysgu a deunydd dwyieithog effeithiol.

**Blaenoriaethau**

46 Mae'r Bennod yn gofyn beth ddylai'r brif flaenoriaeth fod er mwyn datblygu dysgu gydol oes drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cael llawer o ddefnydd, a nodwn fod un flaenoriaeth allweddol yn annigonol. Mae'r Bwrdd yn teimlo taw'r blaenoriaethau allweddol yw darparu cyllid, ymchwil, hyfforddiant a marchnata.

**Pennod 5**

**Methodoleg Ddwyieithog**

47. Rydym yn croesawu'r pwyslais yn y Bennod hon ar hyfforddi athrawon, ond teimlwn nad yw ond yn deg i nodi'r angen am gyrsiau datblygiad proffesiynol ar gyfer cyflenwyr AB/ AU sy'n dymuno dysgu sut i ddefnyddio methodolegau addysgu dwyieithog. Os yw nodau'r bennod flaenorol i'w gwireddu, rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae ymchwil Dr Cen Williams i'r maes hwn yn darparu pwyntiau sy'n argymell hyfforddiant arbenigol ac mae hefyd yn cynnig sawl patrwm at ddefnydd ymarferwyr. Yn sicr, dylai ELWA ymwneud â chynllunio a chyllido'r cyfryw hyfforddiant.

**Tiwtoriaid**

48. Mae'r Bwrdd yn teimlo nad yw'r Bennod hon yn rhoi digon o sylw i addysgwyr/ tiwtoriaid Cymunedol yng Nghymru. Nid yw'n sôn am diwtoriaid cymunedol llawn-amser neu ran-amser o ran eu hyfforddiant, a phan ystyriwn fod dros 700 o diwtoriaid o'r fath yn

gweithredu yng Nghymru ym maes Cymraeg i Oedolion yn unig, rhaid i ni gydnabod y dylai hyfforddiant ar eu cyfer fod yn unol â chyfle cyfartal o ran mynediad i ddatblygiad proffesiynol a chyrsiau hyfforddiant. Mae llawer o diwtoriaid o'r fath ar draws amrywiaeth o feysydd pynciau yn cael eu cyflogi'n *ad-hoc* ac yn dymhorol heb unrhyw sicrwydd swydd na datblygiad proffesiynol priodol. Mae sefyllfa o'r fath yn sicr o lesteirio dysgu gydol oes o safon gwerth chweil ar draws Cymru.

**Hyfforddi Athrawon**

49 Mae'r Bennod yn nodi bod 28,700 o athrawon yn gweithio yng Nghymru yn 2001, ac er ein bod yn sylweddoli fod hyn yn 400 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, dymunwn ailadrodd y pwynt a wnaed mewn sawl papur i'r Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad , sef ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw ddull clir yng Nghymru ar gyfer mapio'r cyflenwad a'r galw ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar bob lefel o addysg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw cwestiynau i'r Adran briodol yn Swyddfa'r Cynulliad wedi arwain at atebion boddhaol, ac eto mae cysylltiad y Bwrdd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn profi bod ganddynt anawsterau o ran penodi athrawon addas ar gyfer sawl pwnc. Mae'r sefyllfa bron yn argyfyngus mewn pynciau megis Gwyddoniaeth a Mathemateg, a rhaid creu strategaeth i recriwtio a hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r ffaith ei bod yn ymddangos fod y cyfrifoldeb dros farchnata addysgu fel gyrfa yn dal i orwedd gyda'r AHA yn Lloegr yn gwneud dim i helpu'r sefyllfa hon. Mae'n amlwg fod y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan swyddogion y Cynulliad i fapio ail-hysbysebion am swyddi yn y wasg yn rhy syml ac anwyddonol i asesu'r galw am athrawon cyfrwng Cymraeg. Os yw canran y swyddi gwag yng Nghymru yn isel, sef "0.4%", pam mae ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar lefel uwchradd, yn cael y fath broblemau?Rhaid i ni gofio nad yw Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon bob amser yn cynnwys modiwlau ar fethodolegau addysgu dwyieithog, a dylid annog mwy o bartneriaethau rhwng sefydliadau hyfforddi er mwyn rhannu arbenigedd. Mae i hyn oblygiadau cyllido a goblygiadau TGCh, a gallai'r ddau wneud llawer i lenwi rhai o'r bylchau yn y ddarpariaeth.

50 Mae'r Bwrdd yn cytuno y dylai FFORWM a CCAUC gynorthwyo cyrff llywodraethu i ddefnyddio safonau arferion gorau yn eu holl bolisïau adnoddau dynol, gan gynnwys polisïau dwyieithrwydd. Mae angen i ddatblygiad parhaus athrawon a darlithwyr ddarparu ar gyfer anghenion myfyrwyr a disgyblion, a gellid diwygio rhaglen GEST i gynnwys datblygiad proffesiynol ar gyfer darlithwyr AB, gyda chyllideb yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiad cyfrwng Cymraeg. Mae denu ymgeiswyr o ansawdd uchel i addysgu yn fater o farchnata positif a phecyn cyflogau ac amodau da. Os yw ein hathrawon i fod yn gymwys ar gyfer dysgu gydol oes, rhaid iddynt dderbyn peth hyfforddiant mewn dwyieithrwydd ac mewn AAA, gan gofio bod y polisi cyfredol yn golygu bod plant ac oedolion ifanc ag AAA yn cael eu cynnwys yn y brif ffrwd.

**Datblygiad parhaus**

51 Os yw datblygiad parhaus i gynnwys ein holl athrawon a darlithwyr, rhaid i ni feithrin eu sgiliau â digon o amser a chyllid, ac mae’r Bwrdd yn awgrymu system a fyddai'n golygu eu bod yn gallu cael absenoldeb sabothol ar ôl cyrsiau priodol. Defnyddir y system hon mewn rhannau eraill o’r byd ac mae’r sefydliad addysgol yn elwa pan fydd yr athro’n dychwelyd i rannu sgiliau ac ymchwil â chydweithwyr.

**Pennod 6**

52 Mae’r Bwrdd yn croesawu’r bwriad i gael cydweithrediad rhwng dau Gyngor ELWA o dan yr enw brand newydd, yn enwedig yn nhermau ei waith posibl ym maes darpariaeth Cymraeg i Oedolion, AB ac AU. Mae angen i fethodolegau cyllido gael eu symleiddio o dan y corff newydd a rhaid ehangu mynediad. Mae angen ffocws dwyieithog mwy strategol ar fentrau Gyrfaoedd Cymru, Cyfrifon Dysgu Unigol a Sgiliau Allweddol, ac mae’r Bwrdd yn dymuno nodi y dylid defnyddio’r Gronfa Defnyddio Gwybodaeth, gyda chymorth cyllid Amcan Un, ar gyfer darpariaeth mewn sawl maes dwyieithog, yn arbennig ar gyfer darpariaeth alwedigaethol a Chymraeg i Oedolion.

**Addysg Gyrfaoedd a PAB**

53 Os ydym i ymestyn hawliau, bydd gwaith PAB a phartneriaethau ar draws cyflenwyr a chyflogwyr yn hollbwysig, ac mae angen i egwyddor y consortia lleol ar gyfer anghenion Addysg a Dysgu Gydol Oes integreiddio anghenion dysgwyr dwyieithog fwyfwy. Mae angen i Yrfaoedd Cymru ganolbwyntio mwy ar weithdai yn ei weithgareddau dwyieithog. Mae’r angen i ddisgyblion gyfarfod â gweithwyr "go iawn" mewn llawer o feysydd yn bwysicach nag erioed – a bydd rôl PAB yn allweddol o ran llwyddiant yn y dyfodol.

54 Mae’r Bwrdd yn cytuno y dylai'r Cynulliad adeiladau ar rôl y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant, gyda rôl ehangach yn dechrau yn CA3, ar yr amod bod holl anghenion disgyblion a myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu diwallu’r llwyr. Bydd cydraddoldeb mewn dewis a darpariaeth yn rhan hanfodol o'r datblygiad hwn, ac yn wir i’r cysyniad o ddarpariaeth ieithyddol ledled addysg a hyfforddiant.

**Pennod 7**

55. Mae’r Bwrdd yn croesawu’r bwriad i gofrestru mwy o bobl ar gyfer AU ac i ehangu mynediad i AU. Nodwn fod angen cysoni gofynion buddsoddi AU cyfrwng Cymraeg a dwyieithog â strategaeth ar gyfer hyfforddi darlithwyr mewn methodoleg ddwyieithog, a darparu, ar eu cyfer hwy a’u myfyrwyr, adnoddau cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel

(yn seiliedig ar gyhoeddiadau a TGCh) ac isadeileddau sy'n caniatáu sefydliadau i rannu arbenigedd ac adnoddau. Fe fyddai'r ganolfan rithiol y cyfeiriwyd ati'n gynharach yn cyfrannu rywfaint at gymryd y camau angenrheidiol yn y maes hwn. Mae pryderon y Bwrdd ynghylch diffyg parhad mewn darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg ar draws yr holl sectorau dysgu yn arbennig o wir mewn AU, oherwydd mae llawer o'n disgyblion ôl-16 oed sy'n gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg i fynd i sefydliadau AU yng Nghymru yn methu dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

**Cefnogi Dysgwyr**

56. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch cyfyngu'r gefnogaeth i ddysgwyr yn bennaf i fyfyrwyr o gartrefi yng Nghymru sydd hefyd yn dewis astudio yng Nghymru, teimlwn na fedrwn fynegi barn am y mater heb gael mwy o fanylion ynghylch sut y gellid gweithredu'r mecanwaith hwn, ac ar ba seiliau. Yn sicr, byddem yn croesawu cyflwyno rhyw fath o raglen gymell sy'n targedu'r meysydd lle mae prinder hyfforddiant ar gyfer proffesiynau megis Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Seicolegwyr Addysg – a hyn yn benodol yng nghyd-destun hyfforddi a chadw siaradwyr Cymraeg mewn swyddi yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hwn yn fater sensitif iawn – a dadleuol, o bosibl - mewn perthynas â chyfle cyfatal a'r rhyddid i symud yn nhermau'r lleoliad astudio. Byddai'r Bwrdd yn croesawu'r cyfle i drafod y materion hyn yn fanylach â'r Cynulliad.

57 Os ydym i hyrwyddo ADGO a throsglwyddiadau di-dor rhwng gwahanol gyfnodau mewn dysgu gydol oes i bob unigolyn, ymddengys taw symleiddio'r system fyddai'r peth amlwg i'w wneud, ac mae hyn yn golygu cyfuno dau Gyngor ELWA yn y pen draw.

**Pennod 8.**

58 Rydym yn croesawu'r targedau a bennwyd yn y bennod hon oherwydd maent yn fesuradwy ac uchelgeisiol. Gofynnwn sut mae'r Cynulliad yn bwriadu mesur eu cyrhaeddiad o ran cynnydd, ac rydym yn siomedig i nodi na chafodd unrhyw dargedau eu cynnwys ar gyfer addysgu a dysgu gydol oes cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

59. Dymuna'r Bwrdd bwysleisio'r angen am dargedau mesuradwy ar gyfer ADGO cyfrwng Cymraeg a dwyieithog oherwydd byddai peidio â'u cynnwys yn cyfleu negeseuon anffodus i'r cyhoedd ynghylch darpariaeth ac yn awgrymu fod ei strategaethau'n atodiad i brif ffrwd ADGO yng Nghymru yn hytrach na bod yn rhan integredig o agenda ADGO.

60. Mae'r adran gwestiynau'n holi "a oes unrhyw beth heb ei gynnwys"? Yr ateb yn syml yw "**targedau ar gyfer sgiliau dwyieithog ac addysg cyfrwng Cymraeg**". Yn ein dogfen genhadaeth a gyflwynwyd i'r Cynulliad y llynedd, pennwyd nifer o dargedau mesuradwy ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, a chafodd y ddogfen dderbyniad gwresog gan y Cynulliad bryd hynny. Felly, nid afresymol oedd tybio y gallai rhai o'r targedau hyn fod wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon a'u cyfuno â'r rhai a nodir yn

ei thestun.

**Casgliad**

61 Fel y nodwyd drwy gydol yr ymateb, byddai'r Bwrdd yn croesawu’r cyfle i drafod ei ymateb â’r Cynulliad, ac i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd sy’n ymarferol ac yn bosibl o ran agenda ddwyieithog ADGO yng Nghymru yn ystod y degawd nesaf.

| **Byrfoddau** | |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| AALl | Awdurdod Addysg Lleol |
| AB | Addysg Bellach |
| ABCh | Addysg Bersonol a Chymdeithasol |
| ADGO | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| AHA | Asiantaeth Hyfforddi Athrawon |
| AU | Addysg Uwch |
| CA | Cyfnod allweddol |

| | |
|---|---|
| CCAUC | Cyngor cyllido addysg uwch Cymru |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| PAB | Partneriaeth Addysg a Busnes |
| TGCh | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |